

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Newport Consulting Rooms, Casnewydd

Dyddiad arolygu: 19 Awst 2019

Dyddiad cyhoeddi: 20 Tachwedd 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth nesaf?	18
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	19
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	21

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Newport Consulting Rooms (y gwasanaeth), 44 Commercial Road, Casnewydd, NP20 2PE ar 19 Awst 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Nid oedd y gwasanaeth wedi darparu unrhyw driniaeth eto yn ymwneud ag enwaedu dynion ac nid oedd unrhyw feddygon teulu wedi defnyddio'r ystafelloedd ymgynghori. Hysbyswyd y rheolwr cofrestredig am y systemau roedd yn rhaid iddynt fod ar waith cyn y gallai'r driniaeth hon gael ei rhoi.

Penderfynodd y gwasanaeth y byddai'n gwneud cais i newid ei gofrestriad i ddileu'r cofrestriad ar gyfer enwaedu dynion nes bod systemau o'r fath ar waith.

Ar sail y wybodaeth a'r polisïau a oedd ar waith ar gyfer gweddill y triniaethau, gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion am y gwasanaethau a ddarperir
- Roedd y clinig mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus
- Roedd trefniadau ar waith i leihau'r risg o groes-heintio
- Yr amrywiaeth o bolisïau a oedd ar gael.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Newport Consulting Rooms wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau annibynnol gan gynnwys enwaedu dynion am resymau crefyddol ac ar gyfer pobl yr aseswyd eu bod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol yn 44 Commercial Road, Casnewydd, NP20 2PE.

Dim ond gwasanaethau gofal dydd y mae'r gwasanaeth yn eu darparu.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 23 Mehefin 2015.

Nid oes gan y gwasanaeth unrhyw gyflogaethion heblaw am y rheolwr cofrestredig sydd hefyd yn berchen ar y fferyllfa drws nesaf.

Darparwyd amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys:

- Enwaediad dynion fel y'i disgrifir uchod
- Clinig teithio
- Ymgynghoriadau meddyg teulu
- Podiatreg.

Ar adeg yr arolygiad, dim ond gwasanaethau podiatreg a gwasanaeth clinig teithio a oedd wedi cael eu darparu.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd yr ystafelloedd ymgynghori mewn cyflwr da ac yn cynnig yr urddas a'r chyfrinachedd angenrheidiol i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol.

Nid oedd unrhyw gleifion yn bresennol yn y gwasanaeth ar adeg yr arolygiad, felly nid oedd yn bosibl casglu barn y cleifion yn uniongyrchol am y gofal a gawsant.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd taflenni yn ardal y dderbynfa ac ym mhob ystafell ymgynghori er mwyn annog y cleifion i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ac i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Roedd gwybodaeth ychwanegol hefyd ar gael am bynciau sy'n ymwneud ag iechyd megis diabetes a rhoi'r gorau i smygu.

Urddas a pharch

Roedd gan y gwasanaeth bolisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd gyda'r nod o sicrhau bod holl ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr yn cael eu trin yn unol ag egwyddorion urddas a pharch. Roedd prif ddrysau'r gwasanaeth yn rhai gwydr tryloyw. Roedd hyn yn golygu y gallai'r bobl a oedd yn aros yn y siop a'r fferyllfa drws nesaf weld y cleifion yn aros i gael ymgynghoriadau. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'r cleifion yn cael eu tywys i'r ystafelloedd ymgynghori wrth gyrraedd pe bai angen preifatrwydd arnynt.

Roedd tair ystafell ymgynghori yn y gwasanaeth, ac roedd pob un yn gallu darparu preifatrwydd wrth gael ei defnyddio. Roedd ffôn ym mhob ystafell er mwyn i drafodaethau gael eu cynnal yn breifat yn ôl yr angen. Cadarnhaodd y rheolwr hefyd fod yr ystafelloedd wedi'u hynysu rhag sain er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y byddai sgysiau preifat yn cael eu clywed ar ddamwain gan bobl yn yr ardal aros.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw ar wahân i gleifion yn unol â'r rheoliadau. Roedd y rhain ar gael yn ardal y dderbynfa ac yn nodi gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth. Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael hefyd ynghylch cael cydsyniad dilys y cleifion.

Ar ddechrau'r arolygiad, trafodwyd y gofynion a oedd yn ymwneud â chydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer enwaedu dynion â'r rheolwr cofrestredig. Dywedodd y rheolwr cofrestredig y byddai cydsyniad y ddau riant yn cael ei sicrhau cyn i'r llawdriniaeth ddigwydd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y taflenni ar gael yn Saesneg yn unig. O ystyried bod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, byddwn yn cynghori y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried darparu gwybodaeth i gleifion yn Gymraeg.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod nifer o'r staff yn y fferyllfa gyfagos yn siarad nifer o wahanol ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg ac ieithoedd eraill y dwyrain canol a'r is-gyfandir, ac y byddent ar gael fel cyfieithwyr. Roedd gwasanaeth cyfieithu Language Line¹ ar gael i gleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Dylid gwneud ymdrech i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau eraill, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y bu cynlluniau i enwaedu dynion yn y gwasanaeth am resymau nad ydynt yn rhai therapiwtig yn unig, fel y nodir yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, ond nad oedd y driniaeth hon wedi cael ei darparu i unrhyw gleifion hyd yma.

Aeth ymlaen i gadarnhau mai gweithiwr proffesiynol gofal iechyd sy'n arbenigo yn y math hwn o driniaeth fyddai'n enwaedu dynion. Nodwyd hyn yn glir yn y datganiad o ddiben a chanllaw'r cleifion. Esboniodd y rheolwr cofrestredig mai'r

¹ <https://www.languageline.com/>

gweithiwr proffesiynol gofal iechyd a'i dîm fyddai'n gyfrifol am bob agwedd ar gynllunio a darparu gofal. Byddai hyn yn cynnwys trefnu apwyntiadau'r cleifion, darparu gwybodaeth am y driniaeth a chael y cydsyniad angenrheidiol gan y claf / rhieni, rhoi'r driniaeth a threfnu apwyntiadau gofal dilynol fel sy'n briodol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n cadarnhau bod y trefniadau hyn ar waith cyn caniatáu i'r driniaeth gael ei rhoi.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y gwasanaeth yn cydnabod ei chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Roedd polisiâu ysgrifenedig ar waith a gafodd eu hadolygu a'u dyddio yn 2019 mewn perthynas â phreifatrwydd, urddas a chyfrinachedd fel y disgrifir uchod. At hynny, roedd gweithdrefn gwynion ysgrifenedig ar gael, a oedd yn nodi'r amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn glir ac yn unol â'r rheoliadau; roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys hefyd.

Roedd mynediad gwastad i'r prif adeilad ac i'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd hyn yn rhoi mynediad hawdd i bobl â phroblemau symudedd a defnyddwyr cadeiriau olwyn. Roedd y cyfleusterau ar un lefel gan ganiatáu mynediad hawdd i'r dderbynfa, yr ystafell aros, yr ystafelloedd ymgynghori a'r toiled i bobl anabl.

Roedd yn hawdd dod o hyd i'r lleoliad ond bid oedd arwyddion ar safle'r swyddfa bost a'r fferyllfa drws nesaf yn nodi ble roedd yr ystafelloedd ymgynghori. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod arwyddion wedi'u harchebu ac y byddent yn cael eu gosod ar y gwydr ar flaen ystafell y dderbynfa maes o law. Roedd digon o arwyddion yn nodi ble roedd yr allanfeydd tân.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd y gwasanaeth yn defnyddio holiaduron cleifion i gasglu adborth gan y cleifion am y gwasanaethau a ddarperir ar y pryd, sef; podiatreg a chlinig teithio. Roedd y sampl a welsom yn cynnwys sylwadau cadarnhaol am y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth yn cynnal adolygiad o'r adborth a dderbyniwyd bob chwarter ac roedd yr adolygiadau hyn ar gyfer y chwe chwarter diwethaf yn cadarnhau tuedd o adborth cadarnhaol. Roedd crynodeb o'r adborth a gasglwyd wedi'i gynnwys yn y canllaw i gleifion.

O ganlyniad i'r adborth hwn, roedd y gwasanaeth wedi cyflwyno cais i'r Ganolfan a Rhwydwaith Cenedlaethol Iechyd Teithwyr (NaTHNaC)² i fod yn glinig galw i mewn ar gyfer brechiad y dwymyn felen.

² <https://nathnac.net/>

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael er mwyn sicrhau bod canllawiau ar y camau cywir i'w cymryd.

Mewn perthynas ag enwaedu dynion, gan nad oedd trefniadau priodol ar waith, penderfynodd y gwasanaeth y byddai'n gwneud cais i newid ei gofrestrriad i ddileu'r cofrestriad ar gyfer y driniaeth hon nes bod systemau o'r fath ar waith.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Rodd adolygydd clinigol wedi asesu'r cyfleusterau i weld a oeddent yn addas i ddarparu gwasanaeth anesthetig lleol achosion dydd ar gyfer enwaedu am resymau nad ydynt yn rhai therapiwtig. Yr adolygydd clinigol oedd Arweinydd Cenedlaethol ar Wroleg ar gyfer "*Invited Review Mechanism*"³ Coleg Brenhinol y Llawfeddygon.

Nododd yr adolygydd y wybodaeth sylfaenol angenrheidiol, archwiliadau, y staff a'u cymwysterau, protocolau a'r cyfleusterau sy'n ofynnol er mwyn darparu gwasanaeth diogel. Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol nad oedd fawr ddim o'r rhain yn bresennol neu wedi'u cofnodi yn y gwasanaeth ar hyn o bryd, ond roedd yn bwriadu rhoi'r rhain ar waith cyn i driniaethau gael eu rhoi. Roedd y tîm arolygu o'r farn na ddylai'r lleoliad gynnig y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd. Ar ôl trafod â'r rheolwr cofrestredig, penderfynwyd y byddai'r gwasanaeth yn gwneud cais i newid ei gofrestrriad i ddileu enwaedu dynion o'i gofrestrriad.

³ <https://www.rcseng.ac.uk/standards-and-research/support-for-surgeons-and-services/irm/>

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i nodi peryglon a lleihau'r risg o niwed. Gwelsom fod asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau a bod camau gweithredu wedi cael eu nodi er mwyn rheoli a lliniaru risgiau. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg amgylcheddol ac asesiadau risg gweithdrefnol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelwch tân wedi'i osod o amgylch y gwasanaeth a bod arwyddion clir i ddangos ble roedd yr allanfeydd tân. Roedd hyn yn golygu bod cyfarpar a gwybodaeth ar gael i'r staff a'r cleifion fel y gallent adael yr adeilad yn ddiogel pe bai tân.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Wrth fynd o gwmpas y gwasanaeth, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus iawn. Roedd gan y gwasanaeth bolisi rheoli heintiau cyfredol a oedd yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r trefniadau i leihau'r risg o groes-heintio yn y gwasanaeth.

Pe bai'r gwasanaeth mewn sefyllfa i ddarparu gweithdrefnau clinigol yn y dyfodol, gwnaethom gynghori y byddai cael angen polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau unigol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth i gefnogi'r polisi cyffredinol a oedd ar waith. Dylai'r rhain nodi manylion am y trefniadau penodol ar gyfer pob math o wasanaeth gofal iechyd a ddarperir. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff a gynhyrchir gan y gwasanaeth yn ddiogel. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael yn yr ystafelloedd ymgynghori ac yn y toiled er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd teclynnau darparu gel diheintio hefyd ar gael i'r staff eu defnyddio, eto er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig mai dim ond offer untro wedi'u sterileiddio oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau presennol. Roedd hyn yn osgoi'r angen i ddefnyddio cyfarpar sterileiddio (dihalogi) ac offer glanhau. Mewn perthynas â'r gwasanaeth enwaedu dynion, dywedodd y rheolwr cofrestredig mai cyfrifoldeb y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhoi'r driniaeth fyddai dihalogi unrhyw offer amlod a ddefnyddid. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n sicrhau bod trefniadau addas ar waith pe bai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

Rheoli meddyginiaethau

Nid oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu storio yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig pe bai angen defnyddio meddyginiaethau; mai cyfrifoldeb y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol unigol sy'n ymweld â'r gwasanaeth fyddai hyn, gan gynnwys ysgrifennu presgripsiynau preifat ar gyfer

meddyginiaethau. Cadarnhawyd y trefniant hwn yn y polisi rheoli meddyginiaethau.

Yn ogystal, roedd y polisi meddyginiaethau brys yn cyfeirio at Gyngor Dadebru (y DU) ⁴ ac at y ffaith y byddai modd cael gafael ar feddyginiaeth mewn argyfwng gan fod y gwasanaeth yn rhannu safle â fferyllfa. At hynny, roedd y polisi'n cyfeirio at drafodaethau am ofynion a fyddai'n cael eu cynnal â'r ymarferwyr iechyd. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i gwblhau ffurflen i nodi pa feddyginiaeth fyddai'n cael ei defnyddio mewn ymateb i anaffylacsis⁵ fel rhan o'u trefniadau ymarfer.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y gwasanaeth wedi llunio polisiau ysgrifenedig ar ddiogelu oedolion agored i niwed, a diogelu plant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys camau gweithredu yr oedd angen eu cymryd mewn perthynas â diogelu ynghyd â manylion am y camau gweithredu y dylid eu cymryd pe amheuid achos o gam-drin. Yn ogystal, roedd y polisi'n cynnwys y rhifau cyswllt ar gyfer meddygon, nyrsys, yr heddlu a'r gwasanaethu cymdeithasol lleol. Roedd hefyd siart llif atgyfeirio y gellid ei dilyn pe bai pryderon am les plentyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Trafodwyd y canllawiau clinigol yr oedd angen eu datblygu cyn i'r gwasanaeth fod mewn sefyllfa i wneud cais i ailgofrestru i ddarparu gwasanaeth enwaedu dynion â'r rheolwr cofrestredig. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad a chyngor cyn llawdriniaeth
- Gwybodaeth i gleifion
- Cydsyniad
- Diogelu
- Trin a rhoi meddyginiaethau

⁴ <https://www.resus.org.uk>

⁵Adwaith difrifol yw anaffylacsis a all beryglu bywyd o ganlyniad i sbardun megis alergedd.

- Staffio
- Rheoli heintiau a dihalogi
- Rheoli cymhlethdodau cyn ac ar ôl cael llawdriniaeth
- Cyngor a gwybodaeth am ryddhau
- Cytundeb rhwydwaith llawfeddygaeth bediatreg.

Rheoli cofnodion

Roedd gan y gwasanaeth bolisi ar reoli cofnodion a diogelu data a oedd yn nodi mai'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth sy'n gyfrifol am gofnodion gofal y cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth a dangosodd ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth diogel ac o ansawdd uchel i'r cleifion.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn y gwasanaeth, ar adeg ein harolygiad, yn unol ag amodau cofrestru AGIC. Roedd y tystysgrifau cofrestru'n cael eu harddangos yn glir, fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol ar gael. Fel y nodir uchod, roedd y rhain yn nodi gwybodaeth am y gwasanaeth, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y ddwy ddogfen wedi'u diweddarau ers yr arolygiad AGIC diwethaf yn 2016, yn unol â'r gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol.

Gwelsom yr adolygiadau chwarterol yr oedd y rheolwr cofrestredig wedi'u hysgrifennu am y gwasanaethau a gynigiwyd yn ystod y tri mis blaenorol. Gwnaed hyn gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y gwasanaeth.

Fel y disgrifiwyd mewn gwahanol adrannau uchod, roedd amrywiaeth o bolisiâu ar gael ar gyfer rheoli'r gwasanaeth.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Pan wnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig dywedodd na fu unrhyw bryderon na digwyddiadau yn y gwasanaeth.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y gwasanaeth yn cyflogi unrhyw staff yn uniongyrchol. Roedd y datganiad o ddiben yn nodi'n glir bod gweithwyr gofal

iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn gweithio yno ar sail hunangyflogedig.

Roedd gan y rheolwr cofrestredig drefniadau ar waith i asesu addasrwydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cyn darparu gwasanaethau i'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cadarnhau cofrestriad unigolion â chyrff proffesiynol, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), cofnodion Hepatitis B, geirdaon ysgrifenedig, hanes cyflogaeth a chofnodion hyfforddiant.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Fel yr adran uchod, nid oedd unrhyw staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth ar adeg yr arolygiad.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Newport Consulting Rooms

Dyddiad arolygu: 19 Awst 2019

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn. Nid yw'n ofynnol i'r gwasanaeth hwn lunio cynllun gwella.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn ar y thema hon.				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn ar y thema hon.				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn ar y thema hon.				